



Ysgol Llanbedrog



Llawlyfr Rhieni 2016-17

www.ysgolllanbedrog.cymru

Ysgol Llanbedrog,
Llanbedrog,
Pwllheli,
Gwynedd.
LL53 7NU

Ffôn (01758)740631

manonhafowen@gwynedd.llyw.cymru

PENNAETH - Mrs Manon Haf Owen B.A

Annwyl Rieni,

Mae'r llawlyfr hwn yn cynnig ychydig o wybodaeth am yr ysgol i rieni, disgyblion a darpar-rieni a disgyblion.

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a gofalgar, ble ymdrechwn yn galed i hyrwyddo twf addysgol a moesol y plant. Rhoddwn bwyslais cryf ar gyswllt agos gyda phob teulu a gweithredwn bolisi o ymateb i broblemau neu anawsterau drwy eu trafod gyda'r rhieni. Ein nod yw creu amgylchfyd ac awyrgylch lle gall y disgybl dyfu, datblygu ac aeddfedu i ddod yn unigolyn hyderus, yn ymwybodol o les eraill, ac yn aelod cyfrifol o'r gymdeithas yn ogystal â chynnig addysg flaenllaw o safon uchel sydd yn adlewyrchu gofynion y Llywodraeth Cymru, yr Awdurdod, y gymdeithas a'r unigolyn.

Yn Ysgol Llanbedrog rydym yn darparu cyfleoedd i'r plant ehangu eu diddordebau a dod yn ymwybodol o'r byd o'u cwmpas. Mae hyn yn eu datblygu yn unigolion dibynadwy, hyderus a chrwn, cyfan. Cynhaliwn amgylchedd hapus sy'n meithrin plant bywiog, brwdfrydig a llawn diddordeb, sydd nid yn unig â hyder yn eu gallu eu hunain ond sydd hefyd yn gweld pwysigrwydd mewn bod yn ystyriol o eraill sydd o'u cwmpas. Wedi'r cyfan, mae plant hapus yn dysgu yn well.

Mae cynnydd datblygiad addysgol y plant yn cael ei fonitro'n agos er mwyn gallu rhoi'r cymorth a'r anogaeth ychwanegol fel sydd ei angen. Rydym yn credu bod plant yn dysgu orau pan fydd y cartref a'r ysgol yn gweithio gyda'i gilydd. Partneriaeth yw addysg rhwng yr ysgol a'r rhieni er budd y plant. Mae dylanwad a chefnogaeth rhieni a theulu estynedig yn amhrisiadwy yn natblygiad cymdeithasol ac addysgol eich plentyn. Edrychwn ymlaen at gydweithio gyda chi.

Nid yw'r Llawlyfr hwn yn holl gynhwysfawr ac mae'n bosibl y bydd newidiadau yn digwydd na ellir eu rhagdybio. Gobeithio y gwelwch y Llawlyfr yn ganllaw defnyddiol.

Yn gywir

Manon Haf Owen

STAFF YR YSGOL

Mae staff yr ysgol i gyd yn gweithio i sicrhau bod y disgyblion yn gallu cael y profiadau gorau posibl yn eu bywyd ysgol. Ceir yma restr o'r staff sy'n llunio ein tîm cyfeillgar yn Ysgol Llanbedrog:

Pennaeth/Athrawes Blwyddyn 5 a 6	Mrs Manon Haf Owen
Athrawes Blwyddyn 3 a 4	Mrs Gwyneth Lloyd Jones
Athrawes Cyfnod Sylfaen	Mrs Sian Angharad Elfryn
Athrawes Cyfnod Sylfaen	Miss Catrin Elain Evans
Cymhorthydd/Anogwr Dysgu	Mrs Lyn Davies
Cymhorthydd Cyfnod Sylfaen	Mrs Mair Jones
Cymhorthydd AAA (30 awr)	Mrs Caroline Williams
Cymhorthydd AAA (22.5 awr)	Mrs Paula Owen
Cymhorthydd AAA (15 awr)	Miss Megan Parry
Cogyddes	Mrs Susan Pritchard
Clerc pres cinio	Mrs Mair Jones
Arolygwyr Clwb Brecwast ac Amser cinio	Miss Iona Squires
Arolygwyr Amser cinio	Mrs Rosemary Roberts
Uwch Arolygwyr Amser Cinio:	Athrawes/Cymhorthydd ar ddyletswydd
Gofalwr	Mr Chris Pritchard

LLYWODRAETHWYR YR YSGOL

Mae'r Corff Llywodraethu'n yn gweithio gyda'r staff a'r Awdurdod Lleol i gynorthwyo'r ysgol i ddarparu'r addysg orau bosibl ar gyfer yr holl blant. Cynhelir cyfarfod o'r corff llawn o leiaf unwaith y tymor a'r is-banelau yn rheolaidd. Gan fod rôl Llywodraethwyr yn cynyddu ac yn mynd yn fwy cymhleth yn flynyddol, mynychir hyfforddiant perthnasol ac maent yn ymweld â'r ysgol i weld, tafod ac arfarnu gwahanol agweddau o fywyd yr ysgol. Cyflwynir Adroddiad Blynyddol i'r Rhieni yn nhymor yr Hydref a chynnigir hyd at dri cyfarfod y flwyddyn i rieni.

ENW	SWYDDOGAETH	CYNRYCHIOLI
Mr Carwyn Evans	Cadeirydd	Rheini
Mr Andrew Parry	Is-Gadeirydd	Rhieni
Mr James Evans		Cyfetholedig
Ms Helen Whitney		Rhieni
Mrs Greta Hughes		Cyngor Cymuned
Ms Falmai Squires		Cyngor Cymuned
Cyng. Angela Russell		A.A.LI
Mr Ian Goronwy Williams		A.A.LI
Mrs Gwyneth Lloyd Jones		Athrawon
Mrs Manon Haf Owen		Pennaeth (cyfetholedig)

Mr Iwan Hughes Clerc
Gellir cysylltu gyda'r Cadeirydd drwy'r Pennaeth yn yr ysgol .

TREFNIADAETH YR YSGOL

Mae Ysgol Llanbedrog yn ysgol gynradd ddyddiol, ddwyieithog, gyd-addysgol.

Mae pedwar dosbarth yn yr ysgol eleni ac addysgir fel a ganlyn:

Blwyddyn Meithrin/Derbyn - Miss Catrin Elain Evans

Blwyddyn Derbyn 1 a 2 - Miss Nia Tecwyn Jones

Blwyddyn 3 a 4 - Mrs Gwyneth Jones

Blwyddyn 5 a 6 - Mrs Manon Haf Owen

Derbyn Plant i'r Ysgol

Derbynnir plant yn llawn amser ym mis Medi yn dilyn eu penblwydd yn bedair oed ac am 2 awr y bore yn 3 oed. Mae hyn yn unol â pholisi'r Awdurdod Addysg. Dylai unrhyw riant sy'n dymuno i'w plentyn gael ei dderbyn i'r ysgol gysylltu'n uniongyrchol â'r Adran Addysg yng Nghaernarfon, sef gyda Owain Dewi Hughes, Swyddog Gwybodaeth, Addysg, Cyngor Gwynedd, Caernarfon, Gwynedd. Y rhif ffôn yw 01286 679904.

Oriau Dysgu

Mae'r oriau dysgu yn 24 awr yr wythnos i'r plant llawn amser a 10 awr i'r plant Meithrin.

Mae **sesiynau y bore** rhwng 9:00 - 12:00 o'r gloch (9:00 - 11:00 i'r plant Meithrin)

Sesiwn y prynhawn rhwng 12:45 (CA2) 1:00 (CS) - 3:15 o'r gloch.

*Dymunwn eich atgoffa na ddylai plant gyrraedd yr ysgol cyn 8:50am, onibai eu bod yn mynychu'r Clwb Brecwast.

*Dylai'r plant gyrraedd yr ysgol yn brydlon. Byddant yn cael eu cofnodi fel "hwyr" os byddant yn cyrraedd ar ôl 9.00 a.m, a bydd y gwersi eisioes wedi cychwyn.

*Nid oes hawl gan blentyn i adael tir yr ysgol heb ganiatâd a heb i oedolyn ei gyrchu.

* Unwaith mae plentyn wedi ei drosglwyddo i riant/warchodwr, mae'r cyfrifoldeb amdanynt yn trosglwyddo i'r person sydd wedi dod i'w nôl.

* Bydd yr athrawon yn swyddogol gyfrifol am bob plentyn 10 munud cyn dechrau a 10 munud wedi oriau'r ysgol, h.y 8:50 a.m- 3:40 p.m.

Amser Chwarae

Mae amser chwarae fel arfer rhwng 10:30 a 10:50 yn y bore a 2:05 a 2:20 yn y prynhawn a cheir cyfle i chwarae amser cinio hefyd. Mae'r plant yn chwarae ar yr iard neu'r cae chwarae, yn dibynnu ar y tywydd. Yn ystod amser chwarae gwlyb, mae'r disgyblion yn aros yn eu dosbarthiadau, ond parheir i roi egwyl iddynt o'u gwaith.

Bob bore bydd **Siop Ffrwythau** y Cyngor Ysgol yn agor. Gall y plant brynu ffrwyth am 20c neu ddod â ffrwyth eu hunain ar gyfer ei fwyta amser chwarae'r bore. Ni chaniateir fferins, siocled na chreision, na diod heblaw am ddŵr yn unol â chanllawiau Ysgolion Iach Gwynedd a 'Blas Am Oes' Llywodraeth Cymru.

Mae cyfle i'r plant gael diod **llefrith** yn ystod yr egwyl bore. Mae hwn am ddim i blant y Cyfnod Sylfaen ond yn 50c yr wythnos i blant Cyfnod Allweddol 2, i'w dalu ar ddydd Llun.

Amser Mynd Adref

Cofiwch adael i'r ysgol, ac i'r plentyn, wybod os bydd newid yn eich trefniadau arferol ar gyfer codi plant o'r ysgol. Os bydd teuluoedd yn chwalu, ac un rhiant yn cael gofal am y plant, mae'n bwysig ein bod yn cael gwybod am y trefniadau i osgoi sefyllfa annifyr.



AMDDIFFYN A DIOGELU PLANT

Fel rhan o'n gweithdrefnau amddiffyn plant, mae gan holl staff yr ysgol gyfrifoldeb i adnabod arwyddion o gamdriniaeth neu esgeulustod posibl, a chyfeirio eu pryderon ymlaen. Dylid cysylltu hefo'r pennaeth os oes unrhyw bryder, neu gyda person cyswllt os oes honiadau amddiffyn plant yn gysylltiedig â'r pennaeth.

Y person dynodedig amddiffyn plant yn yr ysgol hon yw Mrs Manon Haf Owen.

Personau cyswllt eraill yw: Mr Carwyn Evans (Llywodraethwr Dynodedig)

Mrs Ffion Rhisiart (01286 679007) (Swyddog Diogelu Plant Cyngor Gwynedd)

Gwasanaethau Cymdeithasol CyferiadauPlant@gwynedd.gov.uk (01758 704455).

DAMWEINIAU A MEDDYGINAETHAU

Gofelir am unrhyw blentyn sy'n mynd yn sâl yn yr ysgol neu'n cael damwain, a'i gysuro. Os bydd ein cymorthyddion cyntaf yn ei ystyried yn angenrheidiol, byddwn yn cysylltu â chi ac yn gofyn i chi ddod i gasglu eich plentyn. Am y rheswm hwn mae'n hanfodol bod yr ysgol yn cael gwybod pe bai eich manylion cyswllt yn newid neu fod unrhyw anghenion meddygol penodol gan eich plentyn. Cedwir cofnodion damweiniau ar ffeil, ac anfonir slip damwain adref i esbonio'r hyn sydd wedi digwydd. Mewn achos brys lle na ellir dod i gysylltiad â rhiant bydd y Pennaeth yn gweithredu'n ôl y galw. Mae aelodau o staff yr ysgol wedi derbyn yr hyfforddiant Cymoth Cyntaf priodol.

Pe bai ar eich plentyn angen moddion yn ystod y diwrnod ysgol cysylltwch â'r Pennaeth. Ni all athrawon roi ffisig/tailedi i unrhyw blentyn heb fod y ffurflenni angenrheidiol wedi eu llenwi.

TREFNIADAU IECHYD, LLES A DIOGELWCH

Blaenoriaeth yr ysgol yw diogelwch y disgyblion, y staff ac ymwelwyr. Mae'r llywodraeth yn sicrhau diogelwch yr adeilad ac eiddo'r ysgol. Mae gennym nifer o bolisiau manwl ynglyn â hyn. Dilynnwn ganllawiau Cyngor Gwynedd. Mae asesiadau o risg yn cael eu paratoi i sicrhau fod gweithgareddau'r ysgol mor ddiogel â phosibl. Mae Panel Adeiladau'r Llywodraethwyr a Swyddogion Adeiladau'r Cyngor yn gwneud arolwg rheolaidd o'r adeiladau o ran cyflwr a diogelwch.

Mae gennym system i ganiatau mynediad i ymwelwyr i'r ysgol a pholisi goruchwyllo sy'd yn cyd-fynd â'r gofynion. Mae diogelwch y plant yn cael blaenoriaeth gennym. Cynhelir dril tân yn dymhorol.



CLWB BRECWAST

Mae cyfle i bob plentyn yn yr ysgol fod yn rhan o'n Clwb Brecwast, sydd yn cael ei gynnal yn neuadd yr ysgol. Golyga hyn y gall eich plentyn ddod i'r ysgol unrhyw amser rhwng 8:10 a 8:50 i gael sudd ffrwythau, grawnfwyd a thost i frecwast. Mae'r Clwb Brecwast ar agor bob diwrnod ysgol a does dim angen talu ceiniog i fod yn rhan ohono. Os dymunwch i'ch plentyn fod yn rhan o'r clwb hwn, cysylltwch â'r ysgol am fwy o fanylion ac am ffurflen gofrestru.

GWISG YSGOL - i'w harchebu o Liŷn Sports

Mae gan yr ysgol wisg ysgol swyddogol, ond nid oes gorfodaeth ar blant i'w gwisgo. Er hyn teimlir bod gwisg ysgol yn arwain at feithrin balchder yn yr ysgol ac ymdeimlad o berthyn iddi ac annogwn bawb i'w gwisgo.

Genethod	Bechgyn
Crys polo gwyn neu goch	Crys polo gwyn neu goch
Siwmpwr, cardigan neu hwdi goch	Siwmpwr neu hwdi goch
Sgert/trowsus tywyll	Trowsus/trowsus cwta tywyll
* Mae'n hanfodol, rhag cymysgu dillad, fod enwau plant wedi eu nodi yn eglur ar bob dilledyn.	
* Dylai fod gan pob plentyn esgidiau ysgafn, trowsus cwta a chrys T ar gyfer addysg gorfforol. Am resymau hylendid, ni ddylent wisgo'r dillad hyn i ddod i'r ysgol yn y bore, ond newid iddynt am y wers ac yna newid i'w dillad arferol ar ddiwedd y sesiwn.	

* Os yw'r plant am wisgo clustdlysau a fyddech cystal â sicrhau mai rhai 'stud' yn unig fyddant yn eu gwisgo.

* Disgwyliwn i blant sydd â gwalltiau hir, glymu eu gwalltiau yn ôl er diogelwch a glanweithdra.

CINIO YSGOL

Mae'r ysgol darparu prydau ysgol danteithiol ac iachus ar gyfer ein disgyblion bob dydd. Cost gyfredol cinio ysgol yw £2.30 y dydd, £11.50 yr wythnos. Cesglir arian cinio ar ddydd Llun. Dylid rhoi'r arian neu'r sieciau yn yr amlenni pwrpasol a gwneud sieciau'n daladwy i 'Cyngor Gwynedd'. Mae prydau am ddim ar gael i bob plentyn o deuluoedd sy'n derbyn Cynhaliad Incwm neu Lwfans Ceisio Gwaith. Mae'r ffurflen sydd ei hangen i hawlio'r hawliad hwn ar gael o'r Cyngor. Noder bod yr holl ddata Cinio Ysgol yn cael ei gasglu gan yr AALL.

Mae'n well gan rai plant ddod â'u cinio eu hunain i'r ysgol. Gan ein bod yn rhan o Gynllun Ysgolion Iach Gwynedd dymunwn weld bwyd iach yn y bocsus bwyd, a dim diod ffisi na fferins.

Mae'r disgyblion i gyd yn bwyta'u cinio yn neuadd yr ysgol am hanner dydd.

BYW'N IACH

Mae'r ysgol yn dilyn canllawiau diweddaraf y Llywodraeth ynglyn â 'Byw'n Iach'. Cewch fwy o wybodaeth ym mholisi llawn yr ysgol.

PRESENOLDEB AC ABSENOLDEB

Mae gofyn statudol i ysgolion gadw cofnod manwl o bob absenoldeb plentyn. Gofynnwn i rieni gysylltu â ni cyn 9.00 a.m. (trwy ebost neu alwad ffôn) os na fydd eu plentyn yn dod i'r ysgol i sicrhau diogelwch pob plentyn sydd yn yn ein gofal, ac i ni fod yn gwybod pam fod plentyn yn absennol. Os nad yw plentyn yn bresennol ar gyfer sesiwn, cânt eu marcio'n absennol. Yn unol â gofynion y Llywodraeth mae'n rhaid i bob ysgol ddosbarthu absenoldebau mewn un o ddwy ffordd:

awdurdodedig neu **anawdurdodedig**.

- Mae **absenoldebau awdurdodedig** yn arferol yn cynnwys salwch neu apwyntiadau meddygol.
- Cofnodir unrhyw absenoldebau heb eu hesbonio fel rhai **anawdurdodedig**.

Mae gwybodaeth am bresenoldeb yr ysgol yn cael ei chadw'n electronig gan yr AALI. Gall Swyddogion Lles Addysg ymweld â chartrefi unrhyw rieni yr ystyrir bod ffigurau presenoldeb eu plentyn yn bryder i'r Ysgol a'r AALI.

Mae'n bosibl caniatâu hyd at ddeg diwrnod ysgol y flwyddyn i wyliau teuluol, er fod hyn, wrth gwrs yn amharu ar addysg eich plentyn. Rhaid gwneud cais ysgrifenedig i'r Llywodraethwyr am hyn, drwy law'r pennaeth.

Presenoldeb Yr Ysgol 2015-16

Presenoldeb = 93.3% Absenoldeb gydag awdurdod = 6.4% heb awdurdod = 0.2%

Targed presenoldeb y llywodraethwyr yw 95.5%

GOFAL BUGEILIO

Rhoddir pob plentyn yng ngofal athrawes arbennig, ond ceisia'r staff cyfan ymorol am les yr holl ddisgyblion. Mae'r ysgol hon yn annog plant i fod yn hunan-ddisgybliaid yn avfrifol ac i barh.

Ysgol	Teulu (grwp o ysgolion tebyg)	AALI	Cymru
Addysg Gymraeg Llywodraethol	64.7%	65.5%	65.5%

93.3% yw'r presenoldeb yn ysgol hon, 94.7% yw'r gwybodaeth yn ysgol hon, 95.5% yw'r gwybodaeth yn ysgol hon, 95.5% yw'r gwybodaeth yn ysgol hon.

warchod plant rhag cam-driniaeth. Mae'n gyfrifoldeb arnom ddatgan unrhyw bryder am blentyn i'r Swyddog Lles Addysg a'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae Polisiau Grym Rhesymol, Ymddygiad, Amddiffyn Plant a Gwrth-fwllo yn yr ysgol.

CYD-ADDOLI

Yn unol â'r gofynion statudol, mae'r disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithred ddyddiol o addoli (myfyrio, a diolch) mewn cynulliad ysgol-gyfan. Nid yw'r ysgol hon yn dal cysylltiad ffurfiol ag unrhyw enwad crefyddol. Bydd yr athrawon yn arwain yr addoliad neu bydd ymwelwyr yn dod megis ein Ficer lleol. Gellir gwneud trefniadau ar gyfer plant nad yw eu rhieni am iddynt fynychu'r sesiynau cyd-addoli neu astudiaethau cyffelyb drwy lythyr i'r pennaeth. Mae copi o bolisi'r ysgol ar gael os dymunwch ei weld.

Y SEFYLLFA IEITHYDDOL

Credwn bod gan holl blant yr ysgol hon hawl i dyfu yn ddinasyddion dwyieithog. Parchwn famiaith pob disgybl, a cheisiwn eu hannog i ddatblygu eu hyfredded yn eu hail iaith, boed honno yn Gymraeg neu'n Saesneg. Mae nodau ieithyddol yr ysgol hon yn unol â nodau Polisi Dwyieithog Awdurdod Addysg Gwynedd.

Gweithredir y polisi drwy:

- sicrhau yn y dosbarth meithrin / derbyn, trwy ddarpariaeth a threfniadaeth feithrin bwrpasol a sensitif, y rhoddir i bob plentyn sylfaen gadarn yn y Gymraeg er mwyn ei alluogi i gyrraedd y nod o ddwyieithrwydd llawn maes o law.
- adeiladu ym mlynnyddoedd 1 a 2 ar y sylfaen a osodwyd i'r Gymraeg drwy addysg feithrin, cadarnhau a datblygu mamiaith y plentyn o ddysgwr Cymraeg ac ymestyn gafael y plentyn o gartref Cymraeg ar y Saesneg.
- yng Nghyfnod Allweddol 2, cadarnhau a datblygu Cymraeg a Saesneg pob plentyn yn eu holl agweddau goddefol a gweithredol, er mwyn sicrhau eu bod yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu'n rhwydd a hyderus yn y ddwy iaith pan fo'n trosglwyddo i'r ysgol uwchradd.

Y Gymraeg yw iaith gyfathrebol yr ysgol hon. Fe'i defnyddir

- yng ngweinyddiad dydd i ddydd yr ysgol
- fel iaith achlysurol tu allan i sesiynau dysgu
- fel iaith gwasanaethau boreol

Y Gymraeg yw prif iaith cyfrwng y dysgu, yn y cyflwyno ac yn y cofnodi ar draws y cwricwlwm. Cyflwynir y Saesneg yn raddol yn y Cyfnod Sylfaen ac yna cynyddir ei ddefnydd yn gyson trwy Gyfnod Allweddol 2 i gyflwyno a chofnodi, fel y gall pob plentyn ei ddefnyddio'n hwylus.

Ysgol naturiol Gymraeg yw Ysgol Llanbedrog ac mae'r staff a'r disgyblion yn ymdrechu'n galed i gadw naws ac awyrgylch Gymreig yr ysgol. Ni ddylai'r rhai ohonoch sydd â'ch plant yn rhan o sefyllfa ddwyieithog am y tro cyntaf deimlo dan fygythiad na theimlo nad ydych chi'n perthyn. Efallai nad ydych chi'n siarad Cymraeg, er bod llawer o rieni'n penderfynu dysgu'r iaith, ond gobeithiwn y byddwch yn parchu'r awyrgylch ieithyddol sy'n bodoli yma, awyrgylch sy'n cyfoethogi cymaint ym mhob ystyr ar brofiadau dysgu'r plant. Parchwn eich hawl chi i ddefnyddio'r iaith a ddewisir gennych, ac i'r diben hwnnw, byddwch yn derbyn gohebiaeth ddwyieithog o'r ysgol.

Pan ddaw **hwyrddyfodiad**, o Flwyddyn 2 ymlaen, i mewn i'r ysgol, h.y. plentyn nad yw'n siarad Cymraeg o gwbl, yna cynigir cwrs brys o dymor iddynt yn yr Uned Iaith yn Llangybi. Mae cyfleoedd hefyd i blant fynd yno i loywi eu Cymraeg a dod yn fwy rhugl. Yno bydd y plentyn yn rhan o grwp dysgu bychan a bydd yn cael ei ddysgu gan arbenigwyr mewn dysgu Cymraeg fel ail iaith. Yn ystod y tymor byddant yn dilyn y cwricwlwm ysgol arferol yn ogystal â chael dysgu Cymraeg. Cludir y plant i'r Ganolfan yn rhad ac am ddim.

Fel pob ysgol arall yng Ngwynedd, dilynwn egwyddorion Siarter Iaith Gwynedd sydd yn hybu'r defnydd naturiol o'r Gymraeg ym mhob rhan o fywyd yr ysgol.



YR YSGOL A'R CARTREF

Mae hon yn ysgol sy'n credu bod partneriaeth hapus ac agored rhwng yr ysgol a'r cartref yn holl bwysig. Dim ond wrth i'r cartref a'r ysgol gyd-weithio y gallwn helpu pob plentyn i wneud y gorau o'i alluoedd a'i adnoddau. Byddwn yn gofyn i rieni a phlant, ynghyd â'r Pennaeth arwyddo **Cytundeb Cartref Ysgol** sydd yn nodi cyfrifoldebau a dyletswyddau'r ysgol, y rhieni a'r plentyn i sicrhau yr addysg orau posibl i bob plentyn fel y caiff a phob chwarae teg a chyfle i lwyddo.

Teimlwn ei bod yn hollbwysig eich bod yn teimlo y gallwch drafod gwahanol faterion gyda'r Pennaeth a'r athrawon dosbarth, ar amser sydd yn gyfleus i chi a ni. Yn wir, anogir chwi i gysylltu i drefnu apwyntiad. Ni chaiff athrawon dosbarth drafod gwaith disgyblion gyda rhieni heb drefnu o flaen llaw drwy'r Pennaeth.

Yn ogystal â chael ymweld yn unigol â'r ysgol, caiff rhieni hefyd gyfleoedd ffurfiol deirgwaith y flwyddyn i weld y gwaith a wneir yn yr ysgol. Bydd rhieni yn derbyn adroddiad lawn ar ddiwedd tymor yr haf er mwyn rhoi syniad i'r rhieni am gynnydd eu plant yn ystod y flwyddyn.

Gan fod eich barn a'ch safbwyntiau yn bwysig i ni, byddwn yn rhannu holiaduron yn achlysurol i dderbyn adborth mwy ffurfiol gennych, ac yna yn rhannu'r canfyddiadau gyda chi.

Trosglwyddo Gwybodaeth i Rien

Rhoddir gwybodaeth am weithgareddau i ddod mewn cylchlythyrau rheolaidd, ac fe fydd adegau pan fyddwn yn anfon gwybodaeth trwy lythyr i hysbysu'r rhieni am ddigwyddiadau yn yr ysgol. Gofynnir yn garedig i chwi ddarllen pob gohebiaeth yn ofalus os gwelwch yn dda.

Mae ein **Gwefan Ysgol** yn llawn o wybodaeth berthnasol i rieni. Hefyd rydym yn rhannu gwybodaeth drwy ein cyfrif **Twitter** (Ysgol Llanbedrog). Rydym hefyd yn rhan o gynllun tecstio rhieni, **Teachers2Parents**. Mae hon yn ffordd hwylus iawn o gysylltu i rannu neges.

Cyfeillion Ysgol Llanbedrog

Mae'r Cyfeillion wedi ei sefydlu yn yr ysgol ers rhai blynnyddoedd.

Cynhelir Cyfarfod Blynnyddol y Cyfeillion yn fuan ar ôl dechrau'r flwyddyn ysgol ym mis Medi. Mae croeso i bob un sydd yn ymwneud â'r ysgol fod yn aelodau o'r gymdeithas hon. Nod y gymdeithas yw codi arian i brynu adnoddau fydd yn datblygu, atgyfnerthu a hyrwyddo addysg y plant, a dyfnhau'r berthynas sy'n bodoli rhwng staff, rhieni a phawb arall sy'n ymwneud â'r ysgol.

Rydym yn ddiolchgar iawn i'r Cyfeillion am eu hymroddiad a'u haelioni yn ystod y flwyddyn. Mae pob plentyn sydd yn Ysgol Llanbedrog yn elwa yn fawr o'u gwaith caled.

Dogfennau

Mae gennych hawl os y dymunwch, i wneud cais i'r ysgol i gael golwg ar nifer o ddogfennau megis Polisiâu yr Awdurdod Addysg, Polisiâu a Nodau Cwricwlaid y Corff Llywodraethu, adroddiadau Estyn ar yr ysgol, meysydd llafur a chynlluniau gwaith ac adroddiad blynnyddol i rieni.

GWAITH CARTREF

Rhagair

Mae Polisi Gwaith Cartref yr ysgol yn cyflwyno canllawiau ar gyfer gosod, cwblhau ac ymateb i waith cartref. Gobeithir, trwy gydweithrediad a'r rhieni y bydd y gwaith cartref yn helpu i godi safonau addysgol a chyfoethogi'r cwricwlwm. Bydd yr athro / athrawes yn sicrhau bod y gwaith yn amrywiol, o fewn gallu'r plentyn ond eto'n ymestynnol ac yn ddiddorol.

Yr angen am waith cartref:

Mae gwaith cartref yn fodd o sicrhau bod plentyn yn meithrin yr hyder i weithio'n annibynol tu allan i sefyllfa'r dosbarth /ysgol. Yn aml mae'n atgyfnerthu'r gwaith a wneir ar lawr y dosbarth. Mae'n gyfle i'r rhieni gymryd rhan weithredol yn addysg y plant ac yn fodd o ehangu cwricwlwm y plant.

Gosod a dychwelyd gwaith cartref

Bydd diwrnod gosod gwaith cartref yn amrywio o ddosbarth i ddosbarth yn ôl barn yr athrawes a digwyddiadau'r wythnos. Bydd diwrnod penodol yn cael ei osod ar gyfer dychwelyd y gwaith cartref a disgwylir i bob plentyn gadw at y diwrnod yma. Mae'r athrawon yn gofalu bod digon o amser yn cael ei roi i gwblhau'r gwaith. Os yw gwaith cartref yn hwyr - dylai'r plentyn ddod â nodyn yn egluro rheswm dilys am hyn. Cedwir cofnod yn yr ysgol.

Ymateb i waith cartref

Mae ymateb yr athrawon i'r gwaith cartref yn amrywio yn ôl y math o waith a osodir ac ar y wybodaeth a gasglwyd e.e. prawf - sillafu neu dablau, marcio gwaith ysgrifenedig neu cynnal trafodaeth yn y dosbarth

Safon y gwaith cartref

Dylai pob gwaith cartref fod yn adlewyrchiad o ymdrech gorau pob plentyn. Ni fydd gwaith blêr a brysiog yn cael ei dderbyn. Gall athrawes ofyn i blentyn ail-wneud y gwaith nes bod y safon yn dderbyniol.

Rhieni

Disgwylir i rieni roi pob cynhaliad i'r plant a'u hannog i wneud y gwaith gorau posibl. Dylid sicrhau mai gwaith y plentyn sydd yn cael ei gyflwyno! Anogir rhieni i gysylltu â'r ysgol os cyfyd unrhyw anawsterau.

O dro i dro fe all yr athro/athrawes ofyn i blentyn wneud gwaith ychwanegol er mwyn dileu unrhyw wendid neu ganolbwyntio ar agwedd arbennig o'r gwaith. Gobeithir cael cydweithrediad llwyr y cartref ac anogaeth i'r plentyn i wneud y gwaith. Disgwylir i bob disgybl roi cynnig ar y tasgau hyd eithaf eu gallu.

DARLLEN GARTREF

Rydym yn argyhoeddiedig fod darllen yn rhan hynod bwysig yn natblygiad addysgol plentyn. Oherwydd hyn mae gennym Gynllun Darllen Gartref lle y gofynnwn i rieni ddarllen gyda'r plant yn rheolaidd a chadw cofnod o'r hyn y mae plentyn wedi ei ddarllen mewn llyfryn arbennig. Gwerthfawrogn eich cyfraniad yn y llyfryn wythnosol.

Mae ymarfer darllen ychydig bach yn ddyddol gyda'ch plentyn yn gwneud gwahaniaeth mawr.



SUT Y GALLAF HELPŲ I HYBU ADDYSG FY MHLENTYN?

Gosodir rhai canllawiau yma ynglyn â'r math o bethau yn fras y gall rhiant ddysgu i blant a fydd yn eu galluogi i roi cymorth ychwanegol i'w plentyn yn yr ysgol.

Meithrin

Dysgu lliwiau Gafael mewn pensel yn gywir
Cyfiri i 10 Gwneud lluniau
Lliwio yn daclus Sgwrsio am ddigwyddiadau'r dydd
Adnabod rhai llythrennau a rhifau Darllen iddynt yn rheolaidd

Dosbarth Derbyn

Adnabod llythrennau a rhifau Ysgrifennu llythrennau a rhifau
Cyfrif hyd at 20 Darllen geiriau syml a llyfrau
Cyfiri fesul 10 Ysgrifennu geiriau a brawddegau syml
Ffurio llythrennau a rhifau yn gywir Dysgu dyddiau'r wythnos
Darllen iddynt yn rheolaidd

Blwyddyn 1 a 2

Gwybod tablau 2,3,5 a 10 Ysgrifennu brawddegau
Adio a thynnu yn eu pen hyd at 20 Dysgu misoedd y flwyddyn
Cyfrif hyd at 100 a mwy Dysgu dyddiau'r wythnos (Saesneg)
Dweud yr amser (ar yr awr,hanner awr wedi a chwarter wedi ac i.)
Sgwrsio yn y Gymraeg a'r Saesneg Ymarfer darllen yn rheolaidd

Blwyddyn 3 a 4

Gwybod tablau 2,3,4,5, 6 a 10 o leiaf
Dweud yr amser ar gloc analog
Ysgrifennu Cymraeg a Saesneg - llythyrau, storïau
Dysgu misoedd y flwyddyn (Saesneg)
Trafod a sgwrsio gan fynegi barn yn synhwyrol yn y ddwy iaith.
Ymarfer darllen a thrafod yn rheolaidd.

Blwyddyn 5 a 6

Gwybod tablau i gyd at 10 x 10 erbyn tymor cyntaf Blwyddyn 5.
Ysgrifennu Cymraeg a Saesneg - storïau, llythyrau, ayyb heb fawr o gamgymeriadau, ac
yn cynnwys paragraffau - storïau - tua 2 ochr A4 mewn 45 munud i awr
Trafod a sgwrsio yn hyderus yn y ddwy iaith gan ddefnyddio iaith gywir, geirfa dda a mynegi
barn a safbwynt yn glir.
Ymarfer darllen a thrafod yn rheolaidd.



ETHOS AC YMDDYGIAD

Yn Ysgol Llanbedrog credwn fod safon uchel o ymddygiad ac ethos cadarnhaol yn holl-bwysig ar gyfer cyflwyno addysg o'r ansawdd orau ac ar gyfer rhoi sgiliau bywyd positif i'r plant. Mae cwrteisi, parch, moesgarwch ac ystyriaeth o eraill, ynghyd â hunan-ddisgyblaeth yn agweddau pwysig o addysg plentyn ac nid ydym yn derbyn unrhyw fath o fwlio. Mae'r ddogfen bolisi ar gael yn yr ysgol.

Dilynwn egwyddorion cynllun Webster-Stratton, sydd yn cael ei annog gan Gyngor Gwynedd. Mae yn canolbwyntio ar ganmol ymddygiad da ac atgoffa'r plant yn rheolaidd o'r Rheolau Aur. Mae ein hystafelloedd dosbarth yn lleoedd prysur ac atyniadol fel bod y plant yn mwynhau dysgu, yn gweithio'n galed ac yn ymddwyn yn dda. Rydym yn credu mewn amddiffyn hawliau dysgu a diogelwch pob un o'r disgyblion. Felly, pe bai plentyn yn methu dilyn y Rheolau Aur ac yn ymddwyn mewn ffordd sydd yn amharu ar eraill mae gennym gamau pendant y byddwn yn eu dilyn, a gall arwain at ddefnyddio'r Gadair Dawel i ymdawelu a meddwl am achos a chanlyniad. Mae copïau o'n Polisi Ymddygiad llawn ar gael yn yr ysgol ac ar y wefan.

Fel canlyniad, mae'r ysgol yn datblygu i fod yn gymdeithas o unigolion sydd yn gofalu am ei gilydd.

CODI TÂL AM WEITHGAREDDAU

Rydym weithiau'n gofyn am gyfraniadau gwirfoddol tuag at gost rhai gweithgareddau ysgol arbennig, megis teithiau addysgol a chlodiant i wersi yn y ganolfan hamdden. Gan ein bod yn awyddus i gynnig cyfleoedd i'r disgyblion ddysgu y tu allan i adeilad yr ysgol, rydym yn eithriadol o ddiolchgar am gefnogaeth barhaus rhieni. Mae'r cyfraniadau yn caniatáu i ni gynllunio ymweliadau a gweithgareddau cyffrous na fyddem yn gallu eu cynnig i'r plant heb y cyfraniadau. Adolygir y polisi yn flynyddol gan y llywodraethwyr. Ni eithrir unrhyw blentyn o weithgareddau ar sail amharodrwydd neu anallu i gyfrannu'n wirfoddol.

GWERSI OFFERYNNOL

Mae cyfle i'r plant o flwyddyn 3 ymlaen gael gwersi offeryn. Yn anffodus mae'n rhaid codi ffi am y gwersi (mae gostyngiad i rai ar Gymorth Incwm). Ceir mwy o fanylion ar ddechrau blwyddyn ysgol. Caiff holl blant Cyfnod Allweddol 2 wersi recorder fel rhan o waith y dosbarth.

CHWARAEON

Ar hyn o bryd mae holl blant yr ysgol, ac eithrio Meithrin, yn mynd i Ganolfan Hamdden Dwyfor yn wythnosol er mwyn derbyn profiadau amrywiol mewn Addysg Gorfforol. Mae'r ysgol yn talu am gael defnyddio'r ganolfan ac am yr hyfforddwyr. Gofynnir yn garedig am gyfraniad o £1.70 y plentyn i dalu am gostau'r bws. Ni ellir parhau â'r trefniant hwn heb y cyfraniadau hyn. Caiff y ddarpariaeth hon ei hadolygu yn flynyddol.

Rhown gryn werth ar weithgareddau corfforol a'u cyfraniad i ddatblygiad corfforol, addysgol, cymdeithasol ac emosiynol pob plentyn. Ceisiwn ddarparu amrywiaeth eang o weithgareddau i ymateb i ddiddordebau pob plentyn. Yn ogystal â'n gwersi Addysg Gorfforol mae cyfle i ymaelodi â'n Clwb Campau'r Ddraig ôl-ysgol a'n clwb rhedeg—Clwb Ddraig. Byddwn hefyd yn cymeryd rhan mewn gweithgareddau cyfeillgar a chystadleuol amrywiol yn unigolion ac fel tîm yn y dalgylch a gyda'r Urdd.



Y CWRICWLWM

Cynllunir y gwersi a addysgir yn yr ysgol mewn perthynas â gofynion y Cyfnod Sylfaen, Cwricwlwm Cenedlaethol 2008 a 2015, Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd 2013, Fframwaith Cymhwysedd Digidol 2016 a'r Maes Llafur Addysg Grefyddol a gytunir yn lleol.

Nod yr ysgol yw cyflwyno cwricwlwm a fydd yn galluogi ein disgyblion i :

- * ddatblygu'r sgiliau elfennol—siarad, gwrando, darllen, ysgrifennu, rhifedd a meddwl.
- * gael y cyfle i astudio a dehongli'r amgylchedd a datrys problemau
- * ddatblygu agweddau cymdeithasol hapus ac iach
- * dderbyn profiadau cyfoethog ac amrywiol
- * drin T.G.Ch yn hyderus.



Gelwir y cwricwlwm a ddilynnir gan blant oedran Meithrin a Derbyn, Y Cyfnod Sylfaen a Chwricwlwm Iaith a Mathemateg 2015. Yn y Cyfnod Sylfaen mae'r ffocws ar ddarparu'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau drwy ysgogi gweithgareddau chwarae strwythuredig sy'n cael eu gwau i'r profiadau dysgu.

Mae'r cwricwlwm ar gyfer y plant hŷn, a adnabyddir fel Cwricwlwm 2008 neu 2015, yn cynnwys Mathemateg, Cymraeg, Saesneg, Gwyddoniaeth, Technoleg, y Dyniaethau (Hanes, Daearyddiaeth ac Addysg Grefyddol) a'r celfyddydau mynegiannol (Celf, Drama, Cerddoriaeth, Dawns ac Addysg Gorfforol). Mae'r gwersi yn y pynciau hyn yn cael eu cynllunio ar y cyd â'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, Fframwaith Cymhwysedd Digidol 2016 a'r Fframwaith Sgiliau sy'n sicrhau bod ein disgyblion yn datblygu'r pedair sgil allweddol o Lythrennedd, Rhifedd, Meddwl a T.G.Ch.

Mae croeso i rieni weld dogfennau sydd yn ymwneud â'r Cwricwlwm yn yr ysgol ond iddynt wneud trefniadau rhesymol â'r Pennaeth i wneud hynny.

Y CYFNOD SYLFAEN

Blwyddyn Meithrin, Derbyn, 1 a 2

Mae'r Cyfnod Sylfaen yn gosod pwyslais mawr ar ddatblygu'r plant mewn sgiliau a dealltwriaeth, lles personol, cymdeithasol, emosiynol, corfforol a deallusol er mwyn datblygu'r plentyn cyfan. Meithrinir agweddau cadarnhaol at ddysgu fel y bydd y plant yn mwynhau ac am brofion a'u haddysg am gyfnod hirach. Megir hunan-barch a hunan-hyder i arbrofi, ymchwilio, a pethau newydd a ffurfio perthynas newydd ag eraill. Darperir cyfleoedd i arbrofi a mwynhau'r sgiliau mynegiannol a chreadigol i annog eu datblygiad fel unigolion. Rhoddir gweithgareddau awyr agored er mwyn i'r plant gael profiad ymarferol o ddatrys problemau go iawn mewn agweddau fel mathemateg a gwyddoniaeth, a dysgu am gadwraeth a chynaliadwyedd.



Sut bydd y plant yn dysgu?

Mae'r Cyfnod Sylfaen yn gosod pwyslais mawr ar blant yn dysgu trwy wneud. Dylai plant ifanc gael mwy o gyfle i ennill profiad ymarferol trwy chwarae a chymryd rhan mewn gweithgareddau yn hytrach na thrwy gwblhau ymarferion mewn llyfrau. Er enghraifft, dylai mathemateg fod yn fwy ymarferol er mwyn i blant weld sut mae problemau'n cael eu datrys a pha mor bwysig yw mathemateg yn eu bywydau bob dydd. Rhoddir pwyslais ar ddatblygu sgiliau siarad a gwrando'r plant, a fydd yn gosod sylfaen gadarn i ddatblygu sgiliau darllen ac ysgrifennu. Dylid rhoi mwy o bwyslais ar sut mae pethau'n gweithio a dod o hyd i ffyrdd gwahanol o ddatrys problemau.

Mae'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddatblygu o dan y **Saith Maes Dysgu**:

DATBLYGIAD PERSONOL, CYMDEITHASOL A LLES

Mae'r maes hwn o ddysgu yn canolbwyntio ar y plant yn dysgu amdanynt eu hunain, a'u perthynas gyda phlant ac oedolion eraill. Anogir hwy i ddatblygu eu hunan-barch, eu credoau personol a'u gwerthoedd moesol. Mae'r Cyfnod Sylfaen yn cefnogi hunaniaeth ddiwylliannol pob plentyn, i ddathlu gwahanol ddiwylliannau a chynhygu ydychydig o blant i adnabod ac ennill ymwybyddiaeth gadarnhaol o'u diwylliant eu hunain ac Cefnogi'r disgyblion i ddod yn feddylwyr a dysgwyr hyderus, hyfedr ac annibynnol.



SGILIAU IAITH, LLYTHRENNEDD A CHYFATHREBU

Mae'r maes dysgu hwn yn canolbwyntio ar y disgyblion yn cael eu trochi mewn profiadau a gweithgareddau ieithyddol. Mae eu sgiliau'n datblygu drwy siarad, cyfathrebu a gwrando. Anogir hwy i gyfathrebu eu hanghenion, eu teimladau a'u meddyliau ac ailadrodd profiadau. Bydd rhai disgyblion yn cyfathrebu drwy gyfrwng ar wahân i leferydd. Mae'r disgyblion yn cyfeirio at eu bwriadau drwy ofyn cwestiynau, mynegi barn, adweithio i sefyllfaoedd a gwneud dewisiadau drwy amrywiaeth o gyfryngau. Anogir hwy i wrando ar eraill ac ymateb iddynt. Maent yn cael cyfleoedd i ddewis a defnyddio deunyddiau darllen, yn deall confensiynau argraff a llyfrau, a rhoddir iddynt ystod eang o gyfleoedd i fwynhau gwneud marciau ac ysgrifennu.

DATBLYGIAD MATHEMATEGOL

Mae'r maes dysgu hwn yn canolbwyntio ar blant yn datblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o fathemateg drwy ddatblygu sgiliau rhesymu, rhif, Mesur, Geometreg, Algebra a Data. Maent yn defnyddio rhifau yn eu gweithgareddau dyddiol ac yn datblygu ystod o ddulliau hyblyg ar gyfer gweithio'n ymenyddol gyda rhif, er mwyn datrys problemau o amrywiaeth o gyd-destunau, gan symud i ddefnyddio dulliau mwy ffurfiol o weithio a chofnodi pan fyddant yn barod yn ddatblygiadol. Maent yn ymchwilio i briodoleddau siâp ac yn trefnu, cyfateb, dilyniannu a chymharu gwrthrychau a chreu patrymau a pherthynas. Maent yn defnyddio iaith fathemategol briodol i esbonio'u rhesymu dysgu gan defnyddio'r Gymraeg a chyfathrebu yn Gymraeg orau y gallant. Datblygir sgiliau drwy gyfathrebu mewn ystod o weithgareddau pleserus ac ymarferol a gynllunir a defnyddio ystod o ysgogiadau sy'n adeiladu ar wybodaeth a phrofiadau blaenorol y disgyblion a'u cynyddu. Defnyddir profiadau llafar y disgyblion i ddatblygu eu sgiliau darllen. Maent yn gwrando ar ystod o ysgogiadau, yn cynnwys deunyddiau clyweledol a meddalwedd rhyngweithiol T.G.Ch.

GWYBODAETH A DEALLTWRIAETH O'R BYD

Mae'r maes dysgu hwn yn canolbwyntio ar blant yn profi'r gair cyfarwydd drwy ymholi ac ymchwilio. Rhoddir profiadau i blant sy'n cynyddu eu chwilfrydedd am y byd o'u hamgylch a dechrau deall digwyddiadau, pobl a lleoedd y gorffennol, pethau byw a'r gwaith y mae pobl yn ei wneud. Maent yn dysgu arddangos gofal, cyfrifoldeb, pryder a pharch tuag at bopeth byw a'r amgylchedd. Maent yn dysgu mynegi eu syniadau, eu barn a'u teimladau eu hunain, gyda dychymyg, creadigrwydd a sensitifrwydd.

DATBLYGIAD CORFFOROL

Mae'r maes hwn o ddysgu yn canolbwyntio ar ddatblygiad corfforol y plant. Mae brwdfrydedd ac egni ar gyfer symud yn cael ei hybu'n barhaus drwy eu cynorthwyo i ddefnyddio'u cyrff yn effeithlon, drwy annog ymwybyddiaeth ofodol, cydbwysedd, rheoli a chydlynu a datblygu sgiliau symudol a llawdriniol. Anogir y disgyblion i fwynhau gweithgaredd corfforol a chysylltir eu synnwyr datblygiadol o hunaniaeth yn agos â'u hunan-ddelwedd, eu hunan-werth a'u hyder. Cyflwynir i'r disgyblion gysyniadau iechyd, hylendid a diogelwch a phwysigrwydd diet, gorffwys, cwsig ac ymarfer.

DATBLYGIAD CREADIGOL

Mae'r maes dysgu hwn yn canolbwyntio ar blant yn datblygu ar eu dychymyg a'u creadigrwydd drwy'r cwricwlwm. Ysgogir eu chwilfrydedd naturiol a'u tueddiad i ddysgu gan brofiadau synhwyrol bob dydd. Mae'r disgyblion yn ymrwymo mewn gweithgareddau creadigol, dychmygus a mynegiannol mewn, celf, crefft, cynllunio, cerddoriaeth, dawns a symudiad.

DWYIEITHRWYDD AC AML-DDIWYLLIANNOL

Ni fydd yn rhaid i ysgolion sydd ar hyn o bryd yn datblygu 'Sgiliau Iaith, Llythrennedd Chyfathrebu' drwy gyfrwng y Gymraeg addysgu'r elfen ddwyieithog o'r Fframwaith ond mae'r plant yn cael cyfleoedd i ddysgu am ddiwylliannu ac arferion gwahanol yn y byd a dysgu parchu eraill.



CWRICWLWM CENEDLAETHOL 2008

Blwyddyn 3, 4, 5 a 6

Yng Nghyfnod Allweddol 2, bydd y dysgwyr yn adeiladu ar y sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth a gaffaelwyd yn ystod y Cyfnod Sylfaen drwy ddilyn Cwricwlwm 2008, y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd 2013 a'r Fframwaith Sgiliau.

IAITH CYMRAEG A SAESNEG

Llafaredd / Darllen / Ysgrifennu

Gwneir cynnydd trwy raglen gyfunol o lafaredd (siarad a gwrando yn Saesneg), ysgrifennu. Cyflwynir profiadau a chyfleoedd i'r dysgwyr sy'n cydbblethu go adrannau Sgiliau ac Ystod yn y rhaglenni astudio. Daw'r dysgwyr yn siaradwyr hyderus, cydlynol sy'n ennyn diddordeb, gan weithio fel unigolion ac fel aelodau grwp. Bydd eu profiadau yn cynnwys cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau drama a chwarae rôl. Maent yn datblygu i fod yn wrandawyr gweithgar sy'n barod i ymateb mewn ystod eang o sefyllfaoedd. Drwy'r cyfnod allweddol, maent yn profi ystod fwyfwy eang o destunau anodd, er mwynhad ac er gwybodaeth, er mwyn iddynt allu datblygu i fod yn ddarllenwyr rhugl ac effeithiol. Deuant yn ysgrifennwyr cymwys, gan ysgrifennu'n glir ac yn gydlynol mewn amryw o ffurfiau ac at wahanol ddibenion. Maent yn meithrin mwy o ddealltwriaeth o'r angen i addasu eu llafar a'u hysgrifennu i gydweddu â'r diben a'r gynulleidfa. Maent yn gweithio'n fwyfwy manwl gywir ac yn dechrau myfyrio a gwerthuso wrth ystyried eu cyraeddiadau eu hunain a chyraeddiadau eraill.




MATHEMATEG

Sgiliau: Datrys problemau, Cyfathrebu yn fathemategol, Rhesymu yn fathemategol
Ystod: Datblygu Ymresymu Rhifyddol, Sgiliau Rhif, Mesur, Geometreg, Algebra a Data

Maent yn parhau i ddatblygu agweddau cadarnhaol at fathemateg ac yn ymestyn eu meddwl drwy ddatrys problemau mathemategol, cyfathrebu a rhesymu'n fathemategol gan ddefnyddio cyd-destunau ar draws yr ystod gyfan o fathemateg, ar draws y cwricwlwm fel y bo'n gymwys i broblemau o fywyd go-iawn.

Maent yn estyn eu defnydd o'r system rif, gan symud o gyfri'n ddibynadwy i gyfrifo'n rhugl gyda'r pedwar gweithrediad rhif, gan gynnwys yng nghyd-destun arian, er mwyn datrys problemau rhifiadol. Maent yn ceisio datrys problemau drwy ddefnyddio dulliau mathemateg pen cyn defnyddio unrhyw ddull arall ac yn defnyddio dulliau cyfrifo ysgrifenedig sy'n briodol i'w lefel dealltwriaeth. Maent yn datblygu strategaethau amcangyfrif ac yn eu cymhwyso i wirio cyfrifiadau, rhai ysgrifenedig ac ar gyfrifiannell. Maent yn archwilio amrywiaeth helaeth o siapiau a'u priodweddau ac, yng nghyd-destun mesurau, yn defnyddio ystod o unedau ac offer ymarferol yn fwyfwy manwl-gywir. Maent yn casglu, cynrychioli a dehongli data at amryw o ddibenion. Maent yn dewis, trafod, esbonio a chyflwyno eu dulliau a'u rhesymu gan ddefnyddio ystod gynyddol o iaith, diagramau a siartiau mathemategol.



GWYDDONIAETH

Sgiliau: Cyfathrebu, Ymholiad—cynllunio, datblygu a myfyrio

Ystod: Cyd-ddibyniaeth organebau, Y Ddaear gynaliadwy,

Sut mae pethau'n gweithio

Dylai'r disgyblion ddatblygu eu sgiliau trwy astudiaeth o Gyd-ddibyniaeth a'r Ddaear gynaliadwy a Sut mae pethau'n gweithio. Addysgir y dysgwyr i berthnasu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth wyddonol i gymwysiadau gwyddoniaeth mewn bywyd bob dydd, gan gynnwys materion cyfredol. Addysgir hwy i gydnabod bod modd gwerthuso syniadau gwyddonol trwy gyfrwng gwybodaeth a gasglwyd o arsylwadau a mesuriadau. Mae'r dysgwyr yn cael eu hannog i reoli eu dysgu eu hunain a datblygu strategaethau dysgu a meddwl sy'n briodol i'w haeddfedrwydd drwy archwilio ac arbrofi. Dylid eu haddysgu i werthfawrogi safbwyntiau pobl eraill a bod yn ddinasyddion lleol cyfrifol.

Cyflwynir gweithgareddau sy'n meithrin chwilfrydedd a chreadigrwydd yn ogystal â bod yn ddiddorol, pleserus, perthnasol a heriol i'r dysgwr. Caiff y plant gynnig, archwilio a rhannu syniadau, ac estyn, mireinio a chymhwyso eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth mewn sefyllfaoedd newydd gan neilltuo amser ar gyfer meddwl, trafod â chyfoedion a myfyrio.



TECHNOLEG GWYBODAETH

Sgiliau: Darganfod a dadansoddi gwybodaeth, Creu a throsglwyddo gwybodaeth

Addysgir y disgyblion sut i ddefnyddio T.G.Ch yn gyfforddus, yn ddiogel ac yn gyfrifol, gan ystyried y peryglon yn eu gweithgareddau. Maent yn creu ac yn cyfathrebu gwybodaeth ar ffurf testun, delweddau a sŵn yn defnyddio ystod o galedwedd a meddalwedd T.G.Ch. Maent yn rhannu ac yn cyfnewid gwybodaeth yn ddiogel drwy ddulliau electronig yn cynhyrchu modelau neu efelychiadau i ofyn ac ateb cwestiynau. Mae'r disgyblion yn dysgu darganfod a dethol gwybodaeth addas ac fel y maent yn datblygu yn dysgu i'w rhannu'n syml am y ffynonellau gwybodaeth.

Mae gan y disgyblion fynediad i nifer sylweddol o liniaduron, ac mae bwrdd gwyn rhwyngweithiol yn cael ei ddefnyddio yn rheolaidd yn y dosbarth.



DYLUNIO A THECHNOLEG

Sgiliau: Dylunio, Gwneud- bwyd, defnyddiau hyblyg ac anhyblyg, systemau a rheoli

Addysgir y disgyblion i wneud cynhyrchion syml drwy gyfuno sgiliau dylunio a gwneud gyda'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth eu hunain, yn aml mewn modd sy'n cefnogi eu dysgu mewn meysydd eraill, ac sydd wedi ei gynllunio i gynorthwyo i ddatblygu eu dealltwriaeth o fyd gweithgynhyrchu. Cânt eu hannog i fod yn greadigol ac yn arloesol wrth ddylunio a gwneud gan sicrhau ar yr un pryd eu bod yn ymwybodol o faterion sy'n ymwneud â chynaliadwyedd a'r amgylchedd yn yr unfed ganrif ar hugain.



HANES

Sgiliau: Ymwybyddiaeth gronolegol, Gwybodaeth a dealltwriaeth hanseyddol, Dehongliadau o hanes, Ymholi hanesyddol, Trefnu a chyfathrebu

Ystod: Astudio, Cynnal, Gofyn ac ateb cwestiynau

Drwy hanes mae ein disgyblion yn dysgu am bobl, digwyddiadau a lleoedd arwyddocaol, o'r gorffennol diweddar ac o bell yn ôl. Maent yn cael profiadau sy'n gwneud hanes yn ddiddorol, arwyddocaol ac yn rhywbeth i'w fwynhau.

Maent yn dysgu am newid a pharhad yn eu hardal eu hunain, yng Nghymru a thu draw drwy brofiadau sydd yn arwyddocaol sy'n creu chwilfrydedd a mwynhâd. Mae ein plant yn defnyddio gwahanol ffynonellau gwybodaeth i'w cynorthwyo i ymholi i'r gorffennol ac yn dysgu cymharu cyfnodau â'i gilydd. O dro i dro byddwn yn trefnu ymweliadau â lleoedd o ddiddordeb hanesyddol, yn lleol ac ymhellach draw.



DAEARYDDIAETH

Sgiliau: Lleoli lleoedd, amgylcheddau a phatrymau, Deall lleoedd, amgylcheddau a phrosesau, Ymchwilio, Cyfathrebu

Ystod: Astudio, Gwneud, Gofyn ac ateb cwestiynau, Cyfathrebu

Mae daearyddiaeth yn datblygu ac yn ysgogi diddordeb dysgwyr mewn lleoedd o'u cwmpas ac yn meithrin ymdeimlad o ryfeddod am lleoedd a'r byd o'u astudio eu hardal eu hunain yng Nghymru, y byd ehangach, amgylcheddau gwahanol yn y newyddion, mae y dysgwyr yn datblygu eu dealltwriaeth o sut a pham y maent yn newid. Trwy weithgareddau ymarferol a gwaith ymchwil e ystafell ddosbarth ac yn yr awyr agored, mae'r dysgwyr yn datblygu sgiliau a gwneud synnwyr o wybodaeth, defnyddio mapiau, meddwl yn greadigol a rhannu syniadau trwy drafodaeth. Mae daearyddiaeth yn darparu cyfleoedd i'r dysgwyr ystyried materion pwysig am eu hamgylchedd, a chydabod sut mae pobl o bob cwr o'r byd wedi'u cysylltu â'i gilydd. Annogir y plant i ddeall pwysigrwydd cynaliadwyedd, datblygu pryder gwybodus am ansawdd eu hamgylchedd, a chydabod eu bod yn ddinasyddion byd-eang.



addoli, unai mewn gwasanaeth ysgol-gyfan, neu fesul dosbarth.

Addysgylr plant i gant recorder, ac mae gwersi ychwanegol ar gael, a ddarperir gan athrawon teithiol i ddysgu canu'r gitâr ac offerynnau pres. Codir tâl am wersi ychwanegol.



CELF

Sgiliau: Deall, Ymchwilio, Gwneud

Ystod: Deall, Ymchwilio, Gwneud

Mae ein disgyblion yn ymrwymo â gwaith artistiaid, crefftwyr a dylunwyr, cynnal ymchwiliadau creadigol a gwneud gwaith celfyddydol eu hunain. Mae celf a celfyddyd yn ysgogi creadigrwydd a dychymyg ac yn herio'r dysgwyr i ddod i lunio wybodus a gwneud penderfyniadau ymarferol. Gan ddefnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau a phrosesau, maent yn cyfathrebu eu syniadau a'u teimladau drwy gyfrwng iaith weledol, gyffyrddol a synhwyraidd. Rydym yn credu bod archwilio, gwerthfawrogi a mwynhad mewn celf a dylunio yn cyfoethogi bywydau dysgwyr.



ADDYSG GORFFOROL

Sgiliau: Gweithgareddau iechyd, ffitrwydd a lles,

Gweithgareddau creadigol, Gweithgareddau antur,

Gweithgareddau cystadleuol

Ystod: Gweithgareddau iechyd, ffitrwydd a lles, Gweithgareddau creadigol, Gweithgareddau antur, Gweithgareddau cystadleuol

Mae addysg gorfforol yn annog y dysgwyr i archwilio a datblygu eu sgiliau corfforol a'u hysbortio'n hanfodol i gymryd rhan mewn amryw o wahanol weithgareddau. Trwy adeiladu a datblygu sgiliau hyn bydd cyfleoedd i fod yn creadigol ac yn ddychmygus mewn gweithgareddau gymnasteg a dawns. Trwy weithgareddau antur, mae ein plant yn dysgu sut i nofio, bod yn ddiogel a theimlo'n hyderus yn y dwr, a sut i ddarllen map neu ddilyn llwybrau, fel ei fod yn fwy diogel iddynt fynd ymhellach ac archwilio glan y môr a chefn gwlad. Mae gweithgareddau cystadleuol yn cynnig cyfle i ddysgu sgiliau gemau a chwarae mewn tîm, yn ogystal â sut i redeg yn gyflymach, neidio'n uwch a thaflu'n bellach. Mae dysgwyr yn dechrau deall bod addysg gorfforol yn ymwneud â dysgu sut i deimlo'n iach a pharhau'n heini wrth gael hwyl, a gwybod sut bydd y gwahanol fathau o weithgareddau hyn yn helpu iddynt barhau'n iach ac yn ffit.



Wrth gyflwyno'r pwnc hwn sy'n statudol i bob plentyn yn yr ysgol ceisir cynllunio rhaglen ddysgu sy'n arwain at weithgareddau a phrofiadau egniol, pwrpasol a rheolaidd sy'n galluogi pob plentyn i brofi mwynhad a llwyddiant.

Mae'r ysgol yn ffodus o gael defnydd o neuadd y pentref a chae chwarae'r pentref a Chanolfan Hamdden Dwyfor ar gyfer addysg gorfforol.

SGILIAU AR DRAWS Y CWRICWLWM

Mae 'Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd 2013' (statudol) a'r 'Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru' (anstatudol) wedi cael ei ddatblygu er mwyn cynnig arweiniad ynghylch parhad a dilyniant mewn datblygu meddwl, cyfathrebu, TGCh a rhif i ddysgwyr 3 - 19 oed. Yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3, dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr adeiladu ar y sgiliau y maent wedi dechrau eu caffael a'u datblygu yn ystod y Cyfnod Sylfaen. Dylai'r dysgwyr barhau i gaffael, datblygu, ymarfer, cymhwyso a mireinio'r sgiliau hyn trwy dasgau grŵp a thasgau unigol mewn amrywiaeth o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Gellir gweld cynnydd yn nhermau mireinio'r sgiliau hyn a thrwy eu cymhwyso i dasgau sy'n symud o'r diriaethol i'r haniaethol; syml i'r cymhleth; personol i'r 'darlun mawr'; cyfarwydd i'r anghyfarwydd; a dibynnol i'r annibynnol a'r cyd-ddibynnol.

Datblygu Llythrennedd

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau cyfathrebu ar draws y cwricwlwm trwy'r sgiliau llafaredd, darllen, ysgrifennu a chyfathrebu ehangach.

Datblygu Rhifedd

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau rhif ar draws y cwricwlwm trwy ddefnyddio gwybodaeth fathemategol, cyfrifo, a dehongli a chyflwyno casgliadau.



Datblygu TGCh

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau TGCh ar draws y cwricwlwm trwy ddarganfod, datblygu, creu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau a thrwy ddefnyddio ystod eang o meddalwedd.



Datblygu'r Meddwl

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu meddwl ar draws y cwricwlwm trwy'r prosesau cynllunio, datblygu a myfyrio.



Y CWRICWLWM CYMREIG 7 - 14 oed

Mae plant 7— 14 oed y cael cyfleoedd i ddatblygu a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru



DARBLYGU CYNALIADWY A DINASYDDIAETH BYD EANG

Mae'r plant yn datblygu'r sgiliau, gwybodaeth, agweddau a'r gwerthoedd i gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau yn unigol ac ar y cyd ar lefel lleol a byd-eang, a fydd yn gwella ansawdd bywyd yn y presennol heb niweidio'r blaned ar gyfer y dyfodol.

ADDYSG BERSONOL A CHYMDEITHASOL

Rydym yn datblygu Addysg Bersonol a Chymdeithasol yn yr ysgol a phletha hyn gyda'r ffaith ein bod ysgol sydd yn rhan o gynllun Ysgolion Iach Gwynedd. Darparwn gyfleoedd i hyrwyddo iechyd a lles emosiynol y plant, eu datblygiad moesol ac ysbrydol, er mwyn eu meithrin yn ddinasyddion gweithgar a'u paratoi ar gyfer dysgu gydol oes.

Mae ABaCh yn cynorthwyo dysgwyr i ymdopi â'r newidiadau mewn bywyd, yn eu cyflwyno i fyd ehangach ac yn eu galluogi i wneud cyfraniad gweithredol i'w cymuned



ADDYSG RHYW

Fel rhan o'n gwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol rydym yn cyflwyno Addysg Bywyd/Rhyw a Pherthnasedd drwy'r ysgol. Mae'r gwaith a gyflwynir yn cyd-fynd â Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol APADGOS, 2008 ac â Chynllun Ysgolion Iach Gwynedd. Yn unol â pholisi'r ysgol, byddwn yn ychwanegu yn gyfrifol ac yn ddatblygiadol at wybodaeth a phrofiadau plant am eu cyrff a'u perthynas â'r byd o'u cwrpas. Trwy wneud hyn bydd disgyblion yn gallu delio yn well â glasod gan ddatblygu sgiliau a hunan-barch i dyfu yn hyderus.

Mae croeso i rieni gael copi o'r polisi ac mae taflen wybodaeth i rieni ar gael hefyd yn egluro beth sydd yn cael ei gyflwyno i blant yn y gwahanol flynyddoedd ysgol ac mae gan rieni hawl i eithrio plant o'r agweddau sydd ddim yn rhan o'r Cwricwlwm.



BWYD A FFITRWYDD

Mae Cwricwlwm 2008 yn atgyfnerthu safle addysg bwyd yn y cwricwlwm ysgol yng Nghymru'n sylweddol. Bydd sgiliau paratoi bwyd ymarferol yn orfodol yng Nghyfnod Allweddol 2.

PATRWM YR ADDYSGU

Ceisir sicrhau bod yr addysg a ddarperir yn hybu datblygiad moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol pob disgybl a bod natur y cwricwlwm cyflawn yn wahaniaethol, eang a chytbwys. Er mwyn ymateb i'r gofynion hyn bydd trefniant y dosbarth yn hyblyg; gwaith grŵp, unigol, parau a dosbarth cyfan. Weithiau darperir gwaith ar sail oedran, neu bydd plant wahanol oedran yn cyd-weithio ar un dasg. Dysgir y plant fel uned dosbarth sydd dan ofal un athro/athrawes.

Cynllunir y cwricwlwm ar sail agweddau gwahanol ar ddysgu gan gynnwys y pynciau craidd (Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth) a phynciau sylfaen (Dylunio a Thechnoleg, Technoleg Gwybodaeth, Hanes, Daearyddiaeth, Celf a Dylunio, Cerddoriaeth, Addysg Gorfforol ynghyd ag Addysg Grefyddol). Nodir cyfraniad y meysydd hyn mewn dull systematig yng nghynlluniau yr athrawon a sicrhau fod pob pwnc yn cael ei sylw haeddiannol. Rydym yn canolbwyntio ar ddarllen, mathemateg ac iaith yn y sesiynau boreol ar draws yr ysgol. Amcan yr ysgol yw sicrhau cyfleoedd cyfartal i'r holl ddisgyblion.

ASESU

Mae asesu parhaus wedi bod yn rhan naturiol a phwysig o waith athrawon cydwybodol erioed. Mae hyn yn sail i baratoi gwaith addas ar gyfer eich plentyn. Asesir y plant yn ffurfiol ac anffurfiol ar wahanol gyfnodau o'u hamser gyda ni i sicrhau eu bod yn datblygu fel y disgwylir ac fel ein bod yn gallu mesur eu cynnydd.

Bydd plant Meithrin / Derbyn yn cael eu hasesu gyda Proffil Cyfnod Sylfaen yn ystod yr hanner tymor cyntaf. Bydd y rhieni yn cael gwahoddiad i gyfarfod efo'r athrawes i drafod yr adroddiad ysgrifenedig.

Mae asesiad statudol yn digwydd ar ddiwedd Blwyddyn 2 a diwedd Blwyddyn 6 gan ddefnyddio asesu parhaus a'u barn broffesiynol yn hytrach na dibynnu ar brofion ffurfiol.

Ar ddiwedd Tymor yr Haf, bydd pob rhiant yn derbyn adroddiad ysgrifenedig ar ddatblygiad eich plentyn. Bydd yr adroddiad yn cynnwys :

- Sylwadau ar ddatblygiad eich plentyn o fewn y Meysydd Dysgu neu bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol.
 - Lefelau cyrhaeddiad eich plentyn yn y pynciau craidd (Cymraeg, Mathemateg a Gwyddoniaeth) ar ddiwedd B16.
 - Lefelau cyrhaeddiad eich plentyn yn y pynciau craidd (Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth) ar ddiwedd B16.
 - Cymariaethau rhwng canlyniadau eich plentyn (B12 a B16) gyda chanlyniadau cyfartalog cenedlaethol.
 - Sylwadau gan yr athrawes ddosbarth ar agwedd, ymddygiad a datblygiad cyffredinol
 - Sylwadau gan y plentyn ar gryfderau a llefydd i wella.
 - Cofnod o bresenoldeb y plentyn yn ystod y flwyddyn.
 - Argymhellion i'r plentyn a'r rhieni.
 - Dyddiad ac amser i drafod yr adroddiad
 - Dyddiad agor yr ysgol ym mis Medi.
- Caiff copi o'r adroddiad ei gadw yn yr ysgol.

Cynhelir Nosweithiau Rhieni deingwaith y flwyddyn. Rhydd hyn gyfle i rieni drafod datblygiad eu plant gyda'r athrawes ddosbarth.

Cwblheir asesiadau athrawon ar ddiwedd pob blwyddyn addysgol. Yn unol â rhaglen y Cwricwlwm Cenedlaethol bydd disgyblion B2 yn cael asesiad mwy ffurfiol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a'r un modd i ddisgyblion B6 ar ddiwedd CA2. Bydd adroddiad llawn o lefel o gyrhaeddiad disgyblion yn B2 a B6 yn y pynciau craidd yn cael ei baratoi ar gyfer rhieni gyda'r adroddiad ar ddiwedd y flwyddyn addysgol.

Yn Nhymor yr Hydref bydd canlyniadau'r asesiadau Blwyddyn 2 a 6 a hefyd canrannau presenoldeb yr ysgol ar gael i chwi yn yr ysgol drwy gysylltu â'r Pennaeth ac yn adroddiad y llywodraethwyr.

CANLYNIADAU

Mae'r tabl isod yn nodi canlyniadau asesiadau blwyddyn 2 a 6 Haf 2015 yn yr ysgol ac yn nodi targedau'r ysgol at 2018. Y gobaith yw fod plant yn cyrraedd Deilliant 5 neu uwch erbyn diwedd blwyddyn 2 a Lefel 4 neu uwch erbyn diwedd blwyddyn 6.

% Cyfnod Sylfaen - Deilliant 5 neu 6

Bl 2- Deilliant 5+	2015				2016	2017	2018
	Targed	Canlyniad Ysgol	Canlyniad Gwynedd	Canlyniad Cymru	Targedau i'r Dyfodol		
Dangosydd Cyfnod Sylfaen	85.7%	85.7%	86.8%	85.2%	100%	86.6%	85.7%
Sgiliau Iaith a Llythrennedd Cymraeg	85.7%	85.7%	88.4%	89.8%	100%	93.3%	85.7%
Datblygiad Mathemategol	85.7%	85.7%	90.4%	88.7%	100%	86.7%	100%
Datblygiad Personol, Cymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol	85.7%	85.7%	95.5%	94.2%	100%	100%	85.7%

Bl 6- Lefel 4+	2015				2016	2017	2018
	Targed	Canlyniad Ysgol	Canlyniad Gwynedd	Canlyniad Cymru	Targedau i'r Dyfodol		
Dangosydd Pynciau Craidd Cymraeg	88.9%	100%	89.4%	86.1%	81.8%	81.8%	88.9%
Saesneg	88.9%	100%	90%	88.4%	88.9%	81.8%	100%
Mathemateg	100%	100%	91.3%	88.9%	77.8%	81.8%	88.9%
Gwyddoniaeth	100%	100%	93.2%	90.3%	88.9%	81.8%	100%

rhieni yn cael eu trefnu i chi gyfarfod â rhai aelodau o'r staff. Y nod yw hwyluso'r trosglwyddiad i bawb. Ar ddechrau Bl6, cewch wybodaeth am yr ysgolion a sut i gofrestru eich plentyn a sut i wneud cais i'r Awdurdod Addysg pe baech eisiau i'ch plentyn fynychu ysgol uwchradd wahanol.

Trosglwyddir canlyniadau ac asesiadau parhaus plant Blwyddyn 6 i'r ysgol uwchradd fel bod y broses asesu'n gallu parhau'n rhwydd.

GWEITHDREFNAU CWYNO

Mae'r Awdurdod Addysg Lleol, yn unol â gofynion Adran 29 o Ddeddf Diwygio Addysg 2002, wedi sefydlu trefn i ystyried cwynion am y modd y mae'r ysgol, Corff Llywodraethu a'r Awdurdod Addysg yn gweithredu mewn perthynas â chwricwlwm ysgol a materion eraill cysylltiedig. Mae'r drefn hon wedi ei hamlinellu mewn dogfen bwrpasol yn y Gymraeg a'r Saesneg sydd ar gael yn yr ysgol. Darperir copi'n rhad ac am ddim, yn ôl y gofyn, i unrhyw rieni sy'n dymuno gwneud cwyn dan y trefniadau hyn, a gall yr Awdurdod ddarparu copi mewn iaith heblaw'r Gymraeg a'r Saesneg os bydd angen.

Os oes gennych broblem mewn perthynas ag addysg eich plentyn, gwnewch apwyntiad i weld yr athro dosbarth ar y cyfle cyntaf drwy gysylltu â swyddfa'r ysgol. Gellir ymdrin â'r rhan fwyaf o broblemau yn anffurfiol gan yr athro dan sylw. Os teimlwch nad yw eich problem wedi ei datrys, neu bod gennych bryderon am fater arall, gwnewch apwyntiad i weld y Pennaeth. Pe baech yn parhau'n anfodlon, gellir gwneud cwyn ffurfiol i Gadeirydd y Llywodraethwyr.

Mae'r Llywodraethwyr yn mabwysiadu'r weithdrefn a argymhellir gan yr Awdurdod Addysg Lleol ar gyfer ymdrin â chwynion. Pe digwyddai'n annebygol eich bod yn teimlo nad ymdriniwyd â'ch pryder yn effeithlon, dylech ysgrifennu at yr Awdurdod Addysg Lleol.

CYFLE CYFARTAL

Dymunwn hybu agweddau cadarnhaol yn y disgyblion, y staff, y llywodraethwyr a'r rhieni fel y gall y disgyblion gyflawni eu potensial a gwneud dewisiadau, heb eu llesteirio gan ddisgwyliadau seiliedig ar ryw neu bersonoliaeth. Ceisiwn gyflawni amcanion yr ysgol waeth beth fo oed, rhyw, gallu, tarddiad ethnig neu gefndir y plentyn.

Mae'r ysgol yn dilyn Polisiau Cynhwysiad yr AALL, nad yw'n caniatáu i ryw, hil, lliw nac anabledd gael eu defnyddio yn feini prawf ar gyfer mynediad. Rydym yn ymwybodol o'n cyfrifoldeb i wneud addasiadau rhesymol i gynorthwyo cydranddalwyr anabl. Mae'r polisi yn cadarnhau fod yr ysgol yn meithrin agweddau cymdeithasol cadarnhaol, yn sicrhau profiadau eang ac yn annog cyd-weithio hapus ac adeiladol.

HYGYRCHEDD

Nid yw'r ysgol wedi ei dynodi gan yr awdurdod fel ysgol sydd â'r adnoddau i dderbyn disgyblion ag anableddau. Bydd yr awdurdod yn sicrhau fod ysgol o'r fath o fewn cyrraedd rhesymol i bob plentyn ag anabledd. Nid oes mynediad i'r anabl wedi ei greu ar hyn o bryd ond byddem yn ystyried newidiadau rhesymol o fewn yr ysgol pe byddai plentyn ag anabledd yn dymuno dod i'r ysgol.

Rydym yn sicrhau mynediad llawn i'r cwricwlwm i bob plentyn.

Byddai llythyrau o'r ysgol yn cael eu paratoi ar lafar neu gyda phrint bras i rieni pe byddai angen hynny.

PLANT MEWN GOFAL

Mae gan bob plentyn yng ngofal yr Awdurdod Lleol hawl i fynediad i addysg cyn ysgol a holl wasanaethau addysg, gan dderbyn pob cyfle, cymorth a chyfnogaeth i ddatblygu addysgol a chymdeithasol. Mae Gwasanaethau Ysgolion Gwynedd, yn unol â'u dyletswyddau statudol, yn cynghori a chynorthwyo ysgolion iddiogelu ac hyrwyddo lles a chyflawniad addysgol plant sydd yn derbyn gofal. Ceir mwy o fanylion ym mholisi yr ysgol.

Y pennaeth yw'r person sy'n benodol gyfrifol am hyrwyddo cyflawniad plant sydd yn derbyn gofal yn yr ysgol hon, gyda'r cydlynedd ADY, Mrs Gwyneth Jones, yn ail berson dynodedig.

ANGHENION ARBENNIG

Yn yr ysgol hon fel pob un arall, gall fod gennym blant gydag anghenion arbennig. Ni olyga hynny o angenrheidrwydd nad ydyw'r plant hyn yn blant galluog, neu bod eu problem yn un barhaol. Gall nifer o ffactorau effeithio ar ddatblygiad addysgol plentyn, ac mae'n bwysig i rieni ddweud wrthym ni am unrhyw beth a allai effeithio ar ddatblygiad addysg eu plant. Mae gan blant hynod o alluog Anghenion Arbennig yn ogystal, ac mae'r ysgol hon yn ymwybodol iawn o hyn. Mae'r ddeddfwriaeth ddiweddar wedi ffurfioli canllawiau a ganlynir gennym ni, ac mae'n bwysig i rieni fod yn ymwybodol ohonynt a sut yr ydym ni'n ymdrin â hwy.

Mae'r ysgol wedi dechrau defnyddio proffil un dudalen yn unol â chanllawiau'r Awdurdod i adnabod anghenion y plentyn a rhoi mwy o lais i'r plentyn wrth ddod i adnabod ei anghenion a'r hyn sydd yn ei helpu.

Mae ein Polisi Anghenion Arbennig wedi ei ysgrifennu gan gymryd y Côd Ymarfer Cenedlaethol i ystyriaeth. Mae crynodeb ar gael o swyddfa'r ysgol. Ymgynghorir â rhieni ym mhob cam a'u gwahodd i fynychu cyfarfodydd gyda'r Cydlynnydd Anghenion Arbennig a'r gwasanaethau cynhaliol.

Mae Tri Cam/Lefel i Anghenion Addysgol Arbennig

Cymorth Ysgol - mynegiant o bryder gan yr athro/athrawes. Cysylltu â'r rhieni i drafod.

Rhoi'r plentyn ar y Gofrestr A.A.A.. Caiff y sefyllfa ei hadolygu o fewn tymor. Bydd y plentyn yn deryn cymorth ychwanegol gan yr ysgol.

Cymorth Ysgol a Mwy- Os bydd yr ysgol yn methu diwallu anghenion y plentyn, gelwir arbenigwyr megis Seicolegydd Addysg, Therapydd Iaith, Athrawes Cynnal Ymddygiad, Athrawes gwybyddiaeth a Dysgu i mewn i gynnig cymorth i'r ysgol a thynnu Rhaglen Waith Unigol arbenigol i'r plentyn i gael ei weithredu yn yr ysgol.

Datganiad-Os yw plentyn ar Ddatganid bydd gorfodaeth ar Awdurdod Addysg Lleol i ddarparu cefnogaeth a chymorth ariannol i'r ysgol i ddiwallu anghenion y plentyn e.e. ei leoli mewn uned arbennig, talu am gymorth o fewn y dosbarth a.y.y.b.

Nôd y Polisi A.A.A.

Sicrhau bod pob plentyn yn datblygu'n gorfforol, emosiynol a deallol yn ôl ei allu. I blentyn allu cyfrannu'n llawn i'r gymdeithas y mae'n rhan ohoni, mae'n rhaid ceisio ei arfogi gyda'r cysyniadau, sgiliau a gwybodaeth angenrheidiol. Ymgais yw'r polisi hwn yn unol â gofynion Adran 161 o Ddeddf Addysg 1993 ac fe gynhwysir ynddo'r meysydd hynny y mae'n ofynnol cyfeirio atynt yn ôl y Rheoliadau Addysg (A.A.A.). Diben y polisi yw esbonio sut y mae'r Corff Llywodraethol yn dehongli'r "Rhestr Argymhellion ar Adnabod Anghenion Addysgol Arbennig a'u Haddasu" ac yn bwriadu gweithredu ei gofynion.

Amcanion y Polisi A.A.A.

* Sicrhau cyfle cyfartal cwricwlaidd a chymdeithasol i blant ag A.A.A.

* Dilyn y Gofynion Statudol parthed A.A.A.

* Gweithredu yn unol ag argymhellion a pholisi'r Awdurdod Addysg Lleol parthed A.A.A.

* Sicrhau bod cyfundrefn yn bodoli yn yr ysgol i adnabod yn gynnar y plentyn sydd ag anhawsterau a all fod yn llesteirio ei (h) addysg.

* Casglu gwybodaeth gan athrawon ac eraill i sicrhau y ceir y dealltwriaeth gorau am natur anhawsterau'r plentyn.

* Sicrhau y caiff y ddarpariaeth angenrheidiol ei gwneud ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig.

* Ceisio sicrhau cydweithrediad a chefnogaeth rhieni, ac eraill mewn perthynas ag adnabod a darparu gwasanaeth.

* Ceisio sicrhau bod integreiddio gyda gweddill y plant cyhyd ag y bo hynny'n bosibl.

Adnoddau

Ceisir sicrhau bod cyfran o arian yr ysgol yn cael ei wario ar adnoddau A.A.A. Gall yr adnoddau hyn gynnwys offer a/neu staffio. Gwneir unrhyw ddyraniad o fewn y Cynllun Datblygu Ysgol. Fe ddynenir arian i gyllideb pob ysgol gan yr Awdurdod Addysg Lleol yn unol â fformiwla. Nid yw hyn yn ddigon ar gyfer darparu A.A.A. yn yr ysgol ond fe'i defnyddir i brynu adnoddau ar gyfer A.A.A. Fodd bynnag, mae disgyblion gyda Datganiad yn cael ddarpariaeth ychwanegol.

Yn ychwanegol, y mae gan yr A.A.LI wasanaeth cynhaliol. Darperir y canlynol ar gyfer cynorthwyo ysgolion i gyflawni eu dyletswyddau; y Gwasanaeth Seicolegol i Ysgolion, Athrawon Ymgynghorol sydd a rôl gyffredinol ynghyd a rôl arbennigol ym meysydd nam ar y clyw, nam ar y golwg, nam corfforol, ymddygiad a'r Sector Cyn-Ysgol a'r Gwasanaeth Lles Addysg

Adnabod, Asesu a Darparu Anghenion Addysgol Arbennig

Cedwir cofrestr o A.A.A. yn yr ysgol

Yn dymhorol byddwn fel staff dysgu yn trafod cynnydd pob plentyn. Os oes pryder yn cael ei fynegi, byddwn yn ystyried rhoi'r disgybl hwnnw/honno ar Gyfnod Cymorth Ysgol. Os nad yw'r broblem neu'r pryder yn ddigon i roi'r plentyn ar Gyfnod Cymorth Ysgol yna gadewir i bethau fod am y tro, ond os bydd pryder yn parhau neu'n cynnyddu, fe roir y disgybl ar Gyfnod Cymorth Ysgol yn syth pan welir bod angen i hynny ddigwydd.

Mae athrawon yr ysgol yn defnyddio asesu fel rhan o ddysgu dyddiol. Nid yw hyn yn golygu bod profion yn cael eu gosod ar gyfer asesu, ond y mae cynllunio gwersi yn digwydd fel bod tasgau yn cael eu hasesu. Weithiau bydd y tasgau yn wahaniaethol o ran eu natur, dro arall yr ymateb i'r un math o dasg sy'n wahaniaethol. Trwy'r dulliau hyn, ac o bryd i'w gilydd, brofion safonedig, fe obeithir bod pob plentyn yn cael sylw ac yn datblygu i'w llawn botensial ac y gallwn ddod yn ymwybodol o unrhyw broblemau neu bryder a all godi yn fuan iawn.

Derbyn disgyblion ag anghenion o unrhyw ysgol arall

Fe geisir sicrhau bod gwybodaeth am y disgybl yn cyrraedd yr ysgol. Yn yr un modd fe fydd yr ysgol hon hefyd yn trosglwyddo unrhyw wybodaeth berthnasol i unrhyw ysgol lle bydd plentyn yn trosglwyddo iddi.

Mae trefniadau ar gael i adolygu'r ddarpariaeth A.A.A. os y bydd disgybl ar unrhyw gyfnod yn unol a Pholisi'r A.A.Ll.

Yn naturiol, mae barn rhieni yn bwysig iawn wrth adnabod ac mewn unrhyw asesiad o blentyn a cheisir eu cyd-weithrediad ymhob achos.

Pan fo gofyn, yn unol â'r Cyfnod y rhoddwyd y disgybl arno, y mae asiantaethau eraill hefyd yn hanfodol, a cheisir cyd-weithrediad yr asiantaethau perthnasol wrth ganfod ac asesu disgyblion A.A.A

Cyd-gysylltydd AAA Ysgol Llanbedrog yw -Mrs Gwyneth Jones.

Y lywodraethwraig sydd yn gyfrifol am AAA - Ms Falmai Squires

Mae croeso i rieni gael copi o'r polisi llawn o'r ysgol.

Y 'CWRICWLWM CUDD'

Ar wahân i arbenigedd unigol y staff addysgu, dyma'r peth sy'n bennaf gyfrifol am roi i bob ysgol ei chymeriad unigol ac unigryw. Dyma'r rhan o'r cwricwlwm na ellir ei osod o dan benawdau - yr athroniaeth y tu cefn i'r dysgu ac ysgogiadau'r staff, ynghyd â'r ffordd y mae polisiau'r ysgol yn ystyried natur y gymdeithas a wasanaethir ganddi - dyna sy'n rhoi i ysgol ei chymeriad ei hun.

Yma yn Ysgol Llanbedrog, ceisiwn wneud nifer o bethau nad ydynt yn rhan o'r cwricwlwm ffurfiol, pethau sy'n bwysig mewn bywyd yn ein meddyliau ni. Credwn ein bod yma i roi gwasanaeth mwy na'r amcanion academaidd ar ben eu hunain (er bod y pwysau ac amser yr ysgol yn gwneud hyn yn fwyfwy anodd). Credwn y dylai pob plentyn allu uniaethu ei hun â'i ysgol - ac y dylai fedru gwneud hynny, nid yn unig drwy'r wisg ysgol sydd amdano, ond drwy agwedd yr ysgol at y byd mawr y tu allan. I'r diben hwn ceisiwn feithrin cysylltiadau a'n cymuned, ysgolion eraill y dalgylch, yr henoed a'r anabl.

Rhaid hefyd gwneud y plant yn ymwybodol o'u "Cymreictod" (os ydynt yn Gymry). Os nad ydynt yn Gymry, dylid eu gwneud yn ymwybodol o'r hyn sydd gan y gymdeithas Gymreig a'r diwylliant Cymraeg i'w gynnig iddynt o ran cyfoethogi eu profiadau. Gan anelu at y pethau hyn mae'r ysgol hon yn ceisio creu awyrgylch sy'n adlewyrchu balchder yn ei chymuned.

GWEITHGAREDDAU YCHWANEGOL

Gobeithia'r ysgol sicrhau cydweithrediad a chefnogaeth y rhieni gyda'r holl weithgareddau ychwanegol a drefnir. Mae'r ysgol yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau o bryd i'w gilydd sy'n agored i'r holl ddisgyblion, sydd ym marn y Pennaeth, yn aeddfed ac yn barod i gymryd rhan ynddynt.

Byddwn yn trefnu clybiau ôl-ysgol, ymweliadau (yn cynnwys rhai preswyl), gwaith maes,

Anghenion Dysgu Ychwanegol

Yn Ysgol Llanbedrog rydym yn sicrhau ein bod yn cynllunio a darparu ar gyfer anghenion pob plentyn yn yr ysgol, boed hynny yn gymorth addysgol ychwanegol oherwydd gallu, cefndir ieithyddol, anabledd corfforol neu yn ddarpariaeth i blant sydd yn serenu mewn maes arbennig. Sicrhewm y gofal a'r gynhaliadaeth haeddiannol er mwyn ymestyn pob unigolyn. Manylir ar hyn yn ei polisiau ADY a Plant Mwy Galluog a Thalentog.

CYSWLLT A'R GYMUNED

Mae'n bwysig fod yr ysgol yn chwarae rhan amlwg ym mywyd y gymuned, a'r gymuned ym mywyd yr ysgol. Mae'r nail yn elwa o'r llall. Credwn ei bod yn holl-bwysig i'r ysgol fod yn rhan annatod o'r gymuned leol a byd-eang er mwyn helpu'r plant i feithrin parch a balchder at cynefin a'i thraddodiadau a theimlo cyfrifoldeb.

Byddwn yn datblygu a dyfnhau cyswllt lleol megis drwy ddarparu gwasanaethau a chyngherddau Nadolig, ac yn fyd-eang megis drwy wneud gwaith dyngarol er mwyn helpu pobl a sefydliadau sydd mewn angen.

Byddwn yn meithrin cyswllt diwylliannol drwy gefnogi eisteddfodau lleol, creu ymwybyddiaeth o'r traddodiadau sydd yn berthnasol i'r ardal gymunedol. Gwahoddwn arbenigwyr i arddangos hen gelfi ac adrodd hanesion. Ymwelwn â mannau o bwys yn bwysig iawn hefyd. Defnyddiwn dalentau lleol i gryfhau gweithgareddau addysgol megis gwau a chrosio, arlunio a chreffftau gwledig, fel bo'r doniau yn cael eu gwerthfawrogi a bod dilyniant yn y gymuned i'r oesoedd a ddêl. Cysylltwm gydag adnoddau parod sydd ar gael i greu ymwybyddiaeth o fenter a busnes. Drwy hyn crier cysylltiadau buddiol rhwng y plant a'r athrawon ag oedolion ac arbenigwyr mewn gwahanol feysydd.

Mae cyd-weithio uniongyrchol ag unigolion ac arbenigwyr megis awduron, arlunwyr, crefftwyr, a rhieni yn ehangu a chyfoethogi agweddau ar y cwricwlwm drwy'r ysgol.



Y CYNGOR YSGOL

Etholir aelodau'r Cyngor Ysgol ar gychwyn pob blwyddyn ysgol, ac maent yn cyfarfod ddwywaith y tymor. Gosodir lluniau o aelodau'r Cyngor ar wal yn y neuadd a chofnod o'u gweithredoedd. Mae 'Bocs Syniadau' yn y neuadd, ble mae **pob** plentyn yn cael cynnig syniadau a lleisio eu barn. Agorir y bocs gan y swyddogion a bydd y syniadau yn cael eu trafod yn ystod y cyfarfod. Darperir cofnodion o'r cyfarfod a cant eu trafod gyda'r Pennaeth. Y gobaith yw y bydd y syniadau yn rhai ymarferol ac adeiladol, a byddwn yn gallu gweithredu arnynt.



gwasanaethau yn y capel a'r eglwys lleol a.y.y.b. Ni all yr ysgol dderbyn cyfrifoldeb am oruchwylio plant ar derfyn sesiynau a gofynnir i rieni/gwarcheidwaid sicrhau eu bod yn gwneud trefniadau i hebrwng eu plant adref. Mae'r staff yn falch o roi eu hamser yn wirfoddol i'r gweithgareddau hyn ac rydym yn gwerthfawrogi cymorth rhieni.



DYDDIADAU TYMOR YSGOL A GWYLIAU 2015-2016

DYDDIADAU Y TYMHORAU

Tymor yr Hydref: 1 Medi 2016 - 16 Rhagfyr 2016

Tymor y Gwanwyn: 3 Ionawr 2017 - 7 Ebrill 2017

Tymor yr Haf: 24 Ebrill 2017 - 21 Gorffennaf 2017

Bydd y disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol ar y 2il o Fedi 2016 a 4ydd o Fedi yn 2017.

DYDDIADAU GWYLIAU 2016-17

24-28 Hydref 2016 (Hanner tymor)

23 Rhagfyr 2015 - 2 Ionawr 2016 (Gwyliau'r Nadolig)

20-24 Chwefror 2017 (Hanner tymor)

25 Mawrth - 8 Ebrill 2017 (Gwyliau'r Pasg)

1 Mai 2017 (Calan Mai)

29 Mai - 2 Mehefin 2017 (Hanner tymor)

19 Gorffennaf - 1 Medi 2017 (Gwyliau'r Haf)

Bydd 4 diwrnod o hyfforddiant staff yn cael ei drefnu mewn blwyddyn academiaidd, yn ychwanegol i'r uchod. Cewch eich hysbysu ohonynt yn fuan yn y flwyddyn addysgol.

Mynd ar wyliau yn ystod tymor ysgol

Mae mynd â phlant ar wyliau yn ystod tymor ysgol yn gallu arwain at amryw o broblemau megis:

- addysg eich plentyn yn dioddef
- colli gwersi a gweithgareddau allgyrsiol
- colli cysondeb gwaith

O ganlyniad, rydym yn gofyn i chi osgoi mynd ar wyliau yn ystod tymor ysgol os yn bosibl. Os oes raid i chi dynnu plant o'r ysgol yn ystod y tymor bydd yn rhaid i chi wneud cais ysgrifenedig ffurfiol i'r llywodraethwyr o leiaf 4 wythnos cyn y gwyliau.

CAU'R YSGOL MEWN ARGYFWNG

Os bydd bydd rhaid cau'r ysgol yn fyr-rybydd, e.e oherwydd eira mawr neu ddim dwr, byddwn yn cysylltu â chwi trwy neges destun tua 8.15 a rhoi nodyn ar galendr gwefan yr ysgol. Yn ogystal â hyn byddwn yn ymdrechu i gysylltu â gorsafoedd radio; **Radio Cymru** a **Heart FM**, a nodi hyn ar wefan **Cyngor Gwynedd**.

Os bydd angen cau yn ystod y dydd, e.e os daw yn eira trwm, byddwn yn cysylltu â chwi trwy ymchwiliad yn sicrhau fod rhywun gartref cyn gadael unrhyw blentyn. Mewn argyfwng, sicrhau fod plentyn yn cael ei adael gyda chymydog neu ffrind cyfrifol.





PWYNTIAU PWYSIG YSGOL LLANBEDROG

1. Os gwelwch yn dda, sicrhewch fod eich plentyn yn yr ysgol erbyn 9.00 a.m. Bydd y drws yn cau am 9:00 a.m a phawb yn eu dosbarthiadau yn barod i gychwyn ar waith y diwrnod. Ar y llaw arall, nid yw'r athrawon yn gyfrifol am y plant yn swyddogol tan 8:50 a.m. felly dim ond plant sydd yn mynychu'r Clwb Brechwast ddylai gyrraedd yr ysgol cyn 8.50 a.m.
2. Gofynnwn i rieni gysylltu â ni cyn 9.00 a.m os na fydd eu plentyn yn dod i'r ysgol - trwy ebost neu alwad ffôn. Gadewch neges ar y peiriant ateb os na chewch ateb.
3. Bydd yr ysgol yn cau am 3.15p.m. i'r holl ddisgyblion. Ni fyddwn yn gollwng yr un plentyn heb sicrhau fod rhywun i'w gyrchu adref, neu bod trefniant wedi ei wneud ymlaen llaw gyda'r rhieni. Pe digwydd i chwi fod yn hwyr, gofynnwn i chi ffonio'r ysgol er mwyn i ni fedru gwneud y trefniadau angenrheidiol i sicrhau diogelwch eich plentyn.
4. Oherwydd prysurdeb traffig gofynnir i rai sydd yn casglu disgyblion ddod at yr ysgol nôl y plant a'u oruchwylio'n ofalus wrth fynd at y ceir. Cesglir plant y Cyfnod Sylfaen o ddrws dosbarth y Cyfnod Sylfaen, plant Blwyddyn 3 a 4 o'r brif dderbynfa a phlant Blwyddyn 5 a 6 o'r giât.
5. Er mwyn diogelwch ac i osgoi camddealltwriaeth mae angen i chi adael i ni wybod ymlaen llaw os byddwch wedi trefnu i rywun gwahanol ddod i nôl eich plentyn.
6. Disgwylir i bob plentyn feddu gwisg ac esgidiau glân, sydd yn ffitio yn iawn i ddod i'r ysgol. Dylai pawb gael dillad ac esgidiau addas ar gyfer Addysg Gorfforol. Sicrhewch bod enw'r plentyn ar bob dilledyn os gwelwch yn dda.
7. Ni chaniateir gwisgo clust-dlysau yn yr ysgol heblaw 'studs', rhag i ni gael damwain.
8. Rhaid clymu gwalltiau hir yn ôl bob dydd.
9. Ni ddylai'r plant ddod â ffonau symudol, tegannau nac eiddo gwerthfawr i'r ysgol onibai eu bod eu hangen ar gyfer eu gwaith. Nid oes gennym adnoddau i'w gwarchod ac ni allwn fod yn gyfrifol amdanynt mewn unrhyw ffordd.
10. Ni chaiff y plant ddod â siocled, fferins, gwm cnoi na diodydd heblaw dŵr i'r ysgol.
11. Disgwylir i bob plentyn gadw at ein Rheolau Aur y tu mewn a thu allan i'r ysgol.
12. Mae gan yr ysgol bolisi DIM YSMYGU.
13. Ni ddylid rhoi lluniau o unrhyw weithgaredd sydd yn ymwneud â'r ysgol ar unrhyw wefan gyhoeddus na rhwydwaith gymdeithasol ar unrhyw achlysur.
14. Os ydych am gael sgwrs gyda'r athrwon, cysylltwch o flaen llaw i drefnu apwyntiad.
15. Ni dderbynir ymddygiad ymosodol, amharchus tuag at staff yr ysgol.